

Adran Archwilio Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful Menter Twyll Genedlaethol

Cafodd yr hysbysiad hwn ei ysgrifennu yn unol â Rheoliadau Cyffredinol Diogelu Data a deddfwriaeth berthnasol.

Tîm Llywodraethu Gwybodaeth

Lisa Richards – Swyddog Diogelu Data

Sam Bishop – Swyddog Datgelu a Chofnodi Data

Rebecca Walsh – Swyddog Datgelu a Chofnodi Data

Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful,
CF47 8AN Data.Protection@merthyr.gov.uk
01685 725000



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

Dyddiad Creu: 25 Mai 2018
Adran Gyfrifol: Archwilio Mewnol
Rheolwr Cyfrifol: Gary Evans
Cyfeiriad: CBSMT, Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn darparu gwybodaeth am sut mae'r Adran Archwilio Mewnol yn casglu a phrosesu eich data personol er mwyn diogelu'r arian cyhoeddus rydym yn ei weinyddu. Y mae'n benodol berthnasol i sut yr ydym yn prosesu eich data personol yn unol â'r Fenter Twyll Genedlaethol. Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn ymarfer cydweddu data. Mae'n paru data bob dwy flynedd ers 1996, a hyd yma, wedi cael ei defnyddio i ddynodi twyll a gordaliadau ledled y DU.

Y mae'n bwysig eich bod chi'n darllen yr hysbysiad preifatrwydd hwn ynghyd â'n Polisi Safonau Preifatrwydd a'r hysbysiad preifatrwydd cyflawn sy'n cynnwys mwy o wybodaeth fanwl am ein prosesu data a gellir cael mynediad ato o'n gwefan.

1. GWYBODAETH BWYSIG A PHWY YDYM NI

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yw'r rheolwr sy'n gyfrifol am eich data personol. Mae'r Cyngor yn cynnwys gwahanol adrannau, a gellir gweld manylion amdanynt ar ein gwefan. Yn yr hysbysiad hwn pan fyddwn yn cyfeirio at yr adran, rydym yn cyfeirio at yr Adran Archwilio Mewnol sy'n gyfrifol am brosesu eich data.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi penodi Swyddog Diogelu Data a gellir cysylltu â'r manylion canlynol:

Mrs. Lisa Richards (Swyddog Diogelu Data)

Cyfeiriad: Tîm Rheoli Gwybodaeth E-bost: data.protection@merthyr.gov.uk
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful Ffôn: 01685 725000
Canolfan Ddinesig Ffacs: 01685 725060
Stryd y Castell
Merthyr Tudful
CF47 8AN

2. Y DATA A GASGLWN AMDANOCH

Ni fydd yr Adran yn casglu unrhyw ddata personol yn uniongyrchol oddi wrthyd chi. Fel rhan o'n swyddogaethau mae'n ofynnol ein bod yn cael mynediad at eich data personol a gaiff ei gadw ar systemau llaw ac electronig y gall adrannau eraill y Cyngor gael mynediad ato. Ymhlith y mathau o ddata personol y gallem gael mynediad ato, ei gasglu, ei ddefnyddio, ei gadw a'i drosglwyddo fydd y canlynol:

- Data hunaniaeth a chyswllt
- Data ariannol
- Data credyd
- Data cyflogaeth
- Data addysg

Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn cael mynediad at, casglu, cadw a defnyddio'r categorïau arbennig canlynol o wybodaeth bersonol:

- Data ffordd o fyw fel eich hil neu ethnigrwydd, credoau crefyddol, tueddfryd rhywiol a safbwyntiau gwleidyddol
- Aelodaeth o undeb llafur
- Hanes iechyd teulu neu unigolyn, cofnodion iechyd, grŵp gwaed, meddyginiaethau cyfredol ac o'r gorffennol yn cynnwys unrhyw gyflwr meddygol, cofnodion iechyd a salwch staff.
- Gwybodaeth enetig a data biometreg
- Gwybodaeth am euogfarn droseddol a throseddau

Rydym yn esbonio'r categorïau hyn o ddata a'r gwahanol ddulliau a ddefnyddiwyd i gasglu data amdanoch chi yn ein hysbysiad preifatrwydd cyflawn sydd ar gael ar ein gwefan.

3. SUT YDYM NI'N DEFNYDDIO EICH DATA PERSONOL

Er mwyn diogelu ein harian cyhoeddus mae'n ofynnol ein bod yn cael mynediad at yr holl gronfeydd data mewnol, yn cynnwys cofnodion llaw, er mwyn craffu arnynt i ddynodi unrhyw gangymeriadau posibl neu achosion o dwyll. Caiff y Fenter Twyll Genedlaethol ei harwain gan Archwilydd Cyffredinol Cymru (Archwilydd Cyffredinol) o dan pwerau statudol o baru data a osodwyd allan yn Rhan 3A o Ddeddf Archwiliad Cyhoeddus (Cymru) 2004. O dan y ddeddfwriaeth hon gallai'r Archwilydd Cyffredinol:

- gyflawni ymarferion paru data at ddibenion cynorthwyo i atal a datgelu twyll;
- gofyn i gyrff penodol ddarparu data ar gyfer ymarferion paru data;
- derbyn data a gyflwynwyd ar sail wirfoddol;
- gorfod rhagnodi graddfa neu raddfa o ffioedd ar gyfer ymarferion paru data;
- codi ffi am ymarferion paru data gwirfoddol; a
- gorfod ymgynghori cyfranogwyr gorfodol a rhanddeiliaid perthnasol cyn rhagnodi'r raddfa wirfoddol neu raddfa o ffioedd.

Bydd y wybodaeth bersonol a ddefnyddir yn berthnasol i ac yn dynodi ein haelodau o staff gan gynnwys staff asiantaeth, Cynghorwyr, cleientiaid, cwsmeriaid, contractwyr, cyflenwyr, credydwyr ac aelodau o'r cyhoedd sy'n byw ym mwrdeistref Merthyr Tudful.

Byddwn ond yn defnyddio eich data personol pan fydd y gyfraith yn caniatáu i ni wneud hynny. Mae dyletswydd gyfreithiol ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful i gyfranogi yn y Fenter Twyll Genedlaethol yn ôl Adran 64B Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae angen yr holl gategoriâu o wybodaeth arnom yn y rhestr uchod yn bennaf i'n galluogi i gydymffurfio â'r goblygiadau cyfreithiol hyn. Pe na fyddem wedi darparu'r wybodaeth hon i Swyddfa'r Cabinet byddem yn cyflawni torcyfraith o ran Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a gallem wynebu cosb droseddol o ganlyniad i hynny.

4. SUT YDYM NI'N RHANNU EICH DATA PERSONOL

Fel rhan o'r Fenter Twyll Genedlaethol bydd yn ofynnol i ni rannu eich data personol â Swyddfa'r Cabinet a Swyddfa Archwilio Cymru sydd yn gyfrifol am archwilio a gweinyddu arian cyhoeddus er mwyn atal a datgelu twyll. Mae'n bosibl y bydd hefyd yn ofynnol i ni ddarparu'r data i gyfranogwyr eraill y Fenter Twyll Genedlaethol er mwyn dynodi twyll ar draws y sector cyhoeddus. Gellir dod o hyd i ragor o fanylion am sut gaiff data ei rannu rhwng partneriaid yn Nogfen Manylebau Data Menter Twyll Genedlaethol 2018-19.

Ni fyddwn yn trosglwyddo'ch data i unrhyw wledydd y tu allan i'r UE. Os fyddwn yn gwneud hynny byddwn yn eich hysbysu cyn gynted ag sy'n bosibl. Os fyddwn yn gwneud hynny gallwch ddisgwyl graddfa debyg o ddiogelu mewn perthynas â'ch gwybodaeth personol.

5. EICH HAWLIAU CYFREITHIOL

O dan rai amgylchiadau, mae gennych hawliau o dan gyfreithiau diogelu data mewn perthynas â'ch data personol yn cynnwys yr hawl i dderbyn copi o'r data personol rydym yn ei gadw amdanoch chi; caiff yr hawliau hyn eu manylu yn yr hysbysiad preifatrwydd cyflawn. Mae gennych hefyd yr hawl i gwyno ar unrhyw adeg i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, awdurdod goruchwyllo'r DU am unrhyw broblemau o ran diogelu data:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (Cymru)
2^{il} Lawr
Tŷ Churchill
Ffordd Churchill
Caerdydd
CF10 2HH

Ffôn: 029 2067 8400
Ffacs: 029 2067 8399
E-bost: casework@ico.org.uk

6. AM FANYLION PELLACH

Os ydych chi'n chwilio am ragor o wybodaeth am sut yr ydym yn prosesu eich data personol yn cynnwys diogelu data, cadw data a gwybodaeth bellach am ein sail gyfreithiol i brosesu, mynnwch weld ein polisi preifatrwydd cyflawn.